**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020

**Mark Drakeford**
**Y Prif Weinidog**

16 Hydref 2020

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (“y prif Reoliadau”).

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys y darperir ar ei chyfer yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a’i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Er bod y prif Reoliadau yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae’r Llywodraeth yn credu bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus ac y caniateir yr ymyrraeth gan fod nod dilys i’r ymyrraeth honno, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae’r Llywodraeth felly yn credu bod y Rheoliadau yn gymesur.

Bydd y cyfyngiadau a’r gofynion yn y prif Reoliadau a ddiwygiwyd gan y Rheoliadau hyn o bosib yn cyffwrdd â hawliau o dan Erthygl 8 (hawl i barch am y teulu a bywyd preifat); Erthygl 9 (hawl i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd); Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu); Erthygl 14 (gwahardd gwahaniaethu) ac Erthygl 1 y Protocol Cyntaf (Diogelu Eiddo).

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os yw hynny’n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid i bob cyfyngiad a gofyniad o’r fath gael eu cyfiawnhau ar y sail bod iddynt nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a’u bod yn gymesur.

Mae’r Llywodraeth o’r farn bod y cyfyngiadau a osodwyd gan y diwygiadau a wnaed gan y Rheoliadau hyn i’r prif Reoliadau, yn gymesur. Mae’r diwygiadau hyn yn cydbwyso’r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws â’r angen i gynnal hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n dal i fod yn gymesur â'r angen i atal cyfradd drosglwyddo'r coronafeirws rhag cynyddu, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

Ymysg pethau eraill, mae'r diwygiadau'n gosod cyfyngiadau ar deithio rhwng ardaloedd â chyffredinrwydd isel o'r coronafeirws yng Nghymru ac ardaloedd gyda chyffredinrwydd uchel o'r coronafeirws yng ngweddill y DU. Oherwydd natur y cyfyngiadau mae'r diwygiadau'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu cymesuredd y cyfyngiadau erbyn 23 Hydref 2020 ac o leiaf unwaith bob saith diwrnod ar ôl y dyddiad hwnnw.

## 3. Y sylfaen dystiolaeth

*Esgus rhesymol o gymryd rhan mewn gweithgareddau a drefnwyd ar gyfer datblygiad neu lesiant plant, neu hwyluso'r gweithgareddau hynny*.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau i ddarparu y bydd gan unrhyw berson esgus rhesymol i fynd i ardal diogelu iechyd lleol, neu i adael yr ardal honno, i gymryd rhan mewn gweithgareddau a drefnwyd ar gyfer datblygiad neu lesiant plant, neu i hwyluso'r gweithgareddau hynny. Yn hyn o beth-

- cymharol ychydig o dystiolaeth a geir o'r effaith y mae caniatáu i bobl fynd i ardaloedd diogelu iechyd lleol, a gadael yr ardaloedd hynny, a'r mwy o gymysgu fel pobl o ganlyniad, yn debygol o'i chael ar y gyfradd R;
- dengys y dystiolaeth ar sail y profiad o ailagor ysgolion gyda'r cyfyngiadau presennol (mesurau hylendid, cadw pellter gan ddibynnu ar oed, cyfyngu ar nifer y bobl sy'n dod i gysylltiad â'i gilydd drwy greu swigod, defnyddio gorchuddion wyneb lle y bo angen) nad oes bron dim tystiolaeth o drosglwyddo yn yr ysgol ymhlith y rheini dan 18 oed;
- mae tystiolaeth o hyn yn y ffaith bod y mwyafrif o achosion a gadarnhawyd ymhlith myfyrwyr ysgol yn achosion unigol ac nid yn glystyrau;
- deellir bod cyfranogiad plant mewn gweithgareddau chwaraeon a gweithgareddau datblygiadol eraill yn fanteisiol i'w hiechyd a'u llesiant meddyliol a chorfforol.

### Cyfyngiadau teithio

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio'r prif Reoliadau i gyfyngu ar deithio o ardaloedd sydd â niferoedd is o'r coronafeirws yng Nghymru i ardaloedd sydd ag achosion uwch o'r coronafeiws yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ac atal pobl o'r ardaloedd hynny sydd â niferoedd uwch o'r coronafeirws rhag mynd i ardaloedd sydd â niferoedd is o'r coronafeirws yng Nghymru.

Mae tystiolaeth gan weithwyr iechyd y cyhoedd proffesiynol yn awgrymu bod y coronafeirws yn symud o'r dwyrain i'r gorllewin ar draws y DU ac ar draws Cymru. Fel rheol gyffredinol, mae'n canolbwyntio ar ardaloedd trefol cyn lledu i ardaloedd llai poblog o ganlyniad i bobl yn teithio. Mae'r papur SARS-Cov-2 *Genomic Insights* (Hydref 2020) yn dangos lledaeniad yr haint yn ddaearyddol ac yn cefnogi'r achos dros gyfyngiadau teithio fel modd o reoli'r lledaeniad. I atal lledaeniad pellach mewn ardaloedd lle mae nifer yr achosion o'r feirws yn parhau i fod yn gymharol isel, mae

angen cyfyngu ar fyrder ar deithio nad yw'n hanfodol ar draws y DU. Bydd y diwygiadau'n cyflawni'r nod hwn.

https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-10/sars-cov-2-genomic-insights-october-2020.pdf

**4. Y cefndir deddfwriaethol**

Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf 1984.

Mae rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn ar gael yn y Memorandwm Esboniadol i'r prif Reoliadau.

**5. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Cafodd y prif Reoliadau eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2).

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau i-

- ddarparu y bydd gan berson sy'n byw mewn ardal diogelu iechyd lleol esgus rhesymol i deithio i ardaloedd diogelu iechyd lleol eraill i gymryd rhan mewn gweithgareddau a drefnwyd ar gyfer datblygiad neu lesiant plant, neu i hwyluso'r gweithgareddau hynny. Gall hyn gynnwys gweithgareddau chwaraeon, diwylliannol, cerddoriaeth, drama a ffydd;

- cyfyngu ar deithio i ardaloedd yng Nghymru sydd heb eu dynodi yn ardaloedd diogelu iechyd lleol o ardaloedd sydd â niferoedd uchel o achosion mewn ardaloedd eraill o'r DU, yn seiliedig ar y darpariaethau perthnasol yn y Rheoliadau Coronafeirws sydd mewn grym yng ngwledydd eraill y DU. Mae'r diwygiadau hefyd yn cyfyngu ar deithio o ardaloedd yng Nghymru nad ydynt wedi'u dynodi yn ardaloedd diogelu iechyd lleol i'r ardaloedd sydd â niferoedd uchel o achosion mewn mannau eraill yn y DU. Yr ardaloedd sydd â niferoedd uchel o achosion yw'r rhai a ddynodwyd fel a ganlyn yn ôl yr awdurdod perthnasol yn y rhan honno o'r DU:
  - Lloegr – pob ardal Haen 2 "uchel" a Haen 3 "uchel iawn"
  - Yr Alban – ardaloedd wedi'u diogelu sydd yn ddarostyngedig i fesurau ychwanegol dros dro
  - Gogledd Iwerddon – y diriogaeth gyfan ar hyn o bryd;

- gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol. Mae'r rhain yn sicrhau cysondeb o ran y termau a ddefnyddir yn y prif Reoliadau ac yn diweddaru enw llawn ward "Menai (Bangor)" ym mharagraff 1 o Atodlen 4A yn y prif Reoliadau.

Daw’r Rheoliadau i rym am 6.00p.m. ar 16 Hydref 2020. Rhaid adolygu’r cyfyngiadau a’r gofynion a gyflwynir gan y diwygiadau hyn mewn perthynas â theithio ar 23 Hydref 2020 neu cyn y dyddiad hwnnw, ac o leiaf unwaith bob saith diwrnod ar ôl y dyddiad hwnnw.

Mae'n hollbwysig cymryd pob cam rhesymol i gyfyngu ar drosglwyddo’r coronafeirws. Cafodd y coronafeirws ei ddatgan yn Argyfwng Iechyd y Cyhoedd o Bryder Rhyngwladol ar 30 Ionawr 2020 gan Sefydliad Iechyd y Byd, a chymerir camau ledled y byd i gyfyngu ar ei drosglwyddo. Asesiad Prif Swyddog Meddygol Cymru, ar y cyd â'r Prif Swyddogion Meddygol eraill ar draws y DU, o hyd yw bod y risgiau i iechyd y cyhoedd sy’n deillio o’r coronafeirws yn uchel.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod cyflwyno’r gofynion a’r cyfyngiadau hyn drwy wneud y diwygiadau i’r prif Reoliadau yn gymesur â'r hyn y mae’r prif Reoliadau’n ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

## 6. Ymgynghori

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol a achosir gan y coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Yn ehangach, cafodd grwpiau cynrychiolwyr ynghyd ag unigolion a busnesau wybod am lacio’r cyfyngiadau drwy ddarllediadau gwybodaeth eang a pharhaus i’r cyhoedd ledled y DU, gan gynnwys gennyf innau.

Ynghyd â Gweinidogion eraill a Llywodraeth Cymru, rwyf wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion a busnesau gydol y newidiadau dilynol i'r Rheoliadau.

## 7. Asesiad effaith rheoleiddiol ac asesiadau eraill

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder fel rhan o’r ymateb parhaus i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.